# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Adroddiad diwedd blwyddyn: 2025-26

Adroddiad blynyddol ar y Gronfa Radio Cymunedol

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 15 Gorffennaf 2026

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3
2. Adroddiad diwedd blwyddyn y Gronfa Radio Cymunedol 2025-26.................................. 4

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") ei gweinyddu yn 2025-26. Mae’r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Mae DCMS yn rhoi swm o arian i’r Gronfa bob blwyddyn, ac mae grantiau'n cael eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi’u trwyddedu gan Ofcom.

# 2. Adroddiad Diwedd Blwyddyn Y Gronfa Radio Cymunedol 2025-26

2.1 Diben y Gronfa yw helpu'r rhai sy'n dal trwyddedau radio cymunedol, a helpu i gefnogi'r costau craidd sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau radio cymunedol.

2.2 Ofcom sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran DCMS. Caiff yr arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.

2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ("y Panel") sy'n penderfynu ar geisiadau am grant, ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.

2.4 Dyfarnodd DCMS ddyrchafiad gan wneud cyfanswm o £1,000,000 i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Roedd y cynnydd o £400,000 yn hwb cafodd ei groesawu i'r sector Radio Cymunedol, yn dilyn gordanysgrifio i'r galw am gyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2.5 Derbyniodd Ofcom gadarnhad gan DCMS ym mis Ionawr 2026 y gellid dyrannu tanwariant o £529 o flwyddyn flaenorol a chronfeydd a adenillwyd o ddyfarniadau wedi'u camwario i'r Gronfa hefyd. O ganlyniad, cafodd cyfanswm o £1,004,472.90 ei wneud ar gael.

2.6 Yn y blynyddoedd blaenorol o gyllid, mae'r Panel wedi cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i ystyried ceisiadau am gyllid. Oherwydd y cynnydd disgwyliedig yn y galw am gyllid o ganlyniad i'r cynnydd a'r angen am reoli adnoddau Ofcom yn effeithlon, cyfarfu'r Panel unwaith yn ystod y flwyddyn ym mis Ionawr 2026 i ystyried y ceisiadau am ddyfarniadau grantiau.

## Crynodeb o'r ceisiadau a'r taliadau

2.7 Ystyriwyd 115 o geisiadau am grantiau, gwerth cyfanswm o £2,930,421.

2.8 Dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £1,004,322 i 47 orsaf.

2.9 Amrywiodd y grantiau o £7,500 i £39,839, gyda thaliad cyfartalog o £21,369.

## Blaenoriaethau'r panel

2.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd ariannu sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed ac yn nodi blaenoriaethau ariannu'r Panel. Fel rhan o'r datganiad hwn, mae'r Panel hefyd yn darparu adborth cyffredinol am y ceisiadau a ddaeth i law er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth i ymgeiswyr aflwyddiannus gydag unrhyw geisiadau y byddant o bosibl yn eu cyflwyno yn y dyfodol.

2.11 Roedd y Panel o'r farn y dylai'r grantiau a roddwyd, cyn belled ag y bo modd, gefnogi sefydlogrwydd ariannol a chynaliadwyedd hirdymor y gorsafoedd, ac felly roedd yn debygol o ffafrio ceisiadau a oedd yn blaenoriaethu'r meysydd hyn a/neu'n cynnig rhagolygon o ddod yn hunangynhaliol y tu hwnt i dymor y grant.

2.12 Tynnodd y Panel sylw at y ffaith nad oedd nifer fach o orsafoedd wedi darllen y nodiadau canllaw a gyhoeddwyd gan Ofcom, sy'n amlygu'r mathau o geisiadau na ellir eu hariannu, megis costau rhent/cyfleustodau a thalu ffioedd cludo DAB, a'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen gan gynnwys disgrifiadau swyddi, gwybodaeth ariannol ac

adroddiadau ar grantiau blaenorol y Gronfa Radio Gymunedol. Atgoffodd y Panel ymgeiswyr nad oes disgresiwn wrth ariannu costau o'r fath ac i gyfeirio at y nodiadau canllaw am fwy o fanylion am y ddogfennaeth atodol sydd ei hangen. Drwy beidio â darparu'r holl ddogfennaeth a gwybodaeth y gofynnwyd amdano, mae ymgeiswyr yn lleihau effeithiolrwydd eu cyflwyniad.

2.13 Atgoffodd y Panel ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth ariannol diweddar gan fod rhai gorsafoedd wedi darparu cyfrifon ariannol nad oeddent yn adlewyrchu ei statws ariannol cyfredol. Mewn achosion o newidiadau ariannol sylweddol rhwng dau gyfnod cyfrifyddu neu lle adroddwyd am gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig mawr ac elw masnachu sylweddol o flynyddoedd blaenorol, croesawodd y Panel wybodaeth ychwanegol gan y gallai unrhyw ddiffyg eglurder roi cais dan anfantais.

2.14 Gwelodd y Panel sawl cais am swyddi lluosog ac argymhellodd y dylai ymgeiswyr benderfynu pa swydd unigol fyddai'n fwyaf gwerthfawr ac i wneud cais am gyllid ar gyfer y rôl honno yn unig o ystyried y galw mawr am gyllid yn y rownd hon. Gan nodi bod rhai ceisiadau aflwyddiannus yn awgrymu rolau lle’r oedd gan ddeiliad y swydd gydag ystod enfawr o gyfrifoldebau, pwysleisiodd y Panel y dylai gorsafoedd sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer rolau swyddi fod yn glir ac yn realistig ynghylch â’r cyfrifoldebau a disgwyliadau'r rolau hynny, a thynnodd sylw at y ffaith bod ceisiadau cryf yn aml yn cynnwys targedau mesuradwy, megis yr incwm disgwyliedig o rolau gwerthu/cynhyrchu incwm.

2.15 Ar gyfer ceisiadau sy’n seiliedig ar gyflog, atgoffodd y Panel ymgeiswyr ei bod yn hanfodol bod yn glir ynglŷn â’r oriau gwaith a bod yn rhaid i'r cyflog sylfaenol fodloni'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Wrth wneud cais am swydd i'w hariannu, atgoffodd y Panel ymgeiswyr i esbonio sut y maent wedi cyrraedd y cyflog arfaethedig ac a yw'r swydd yn llawn amser neu'n rhan-amser. Ar sawl cais, ni allai'r Panel weld sut yr oedd y swm a ofynnwyd amdano wedi'i gyfrifo, gan gynnwys costau amcangyfrif cyfunol, a naill ai wedi eithrio neu eu camgyfrifo cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Felly, argymhellodd y Panel ddefnyddio adnoddau ar-lein i sicrhau cyfrifiadau cywir ac y dylai ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflogi aelod o staff sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth y Cyflog Byw Cenedlaethol gan gynnwys unrhyw gynnydd sydd ar ddod, yn ogystal â deddfwriaeth gyflogaeth a hawl i wyliau statudol.

2.16 Hefyd atgoffodd y panel orsafoedd nad yw'r Gronfa’n talu am "ffioedd rheoli" ac y dylid rhestru “ar gostau" eraill yn llawn. Mae angen cyfiawnhau unrhyw gyflogau sy'n seiliedig ar gomisiwn hefyd.

2.17 Nododd y Panel gynnydd yn nifer o geisiadau i gyflogi contractwr hunangyflogedig ac felly awgrymodd y dylai ymgeiswyr wirio a yw eu cynllun gwaith yn gymwys ar gyfer statws "hunangyflogedig", dangos yr oriau gofynnol y maent yn bwriadu contractio'r gweithiwr ar eu cyfer, ac felly'r tâl fesul awr y bydd y gweithiwr yn ei dderbyn. Os bydd CThEM yn cymryd barn wahanol ar unrhyw adeg, mae rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol ôl-weithredol yn nwylo’r ymgeisydd.

2.18 Gwnaeth nifer fach o orsafoedd gais am gyllid estynedig ar gyfer swyddi sydd wedi'u hariannu o'r blaen. Mewn ceisiadau ailadroddus am gyllid, byddai'r Panel yn disgwyl gweld tystiolaeth fel perfformiad deiliad y swydd (gan gynnwys incwm a godwyd, er enghraifft). Byddai angen i'r Panel hefyd weld rheswm da iawn dros ailadrodd cyllid. Lle roedd ffactorau a effeithiodd yn andwyol ar y defnydd o gyllid blaenorol, byddai'r Panel yn disgwyl gweld manylion fel y gall wneud asesiad mor deg â phosibl.

2.19 Awgrymodd y Panel werth trydydd parti yn adolygu ceisiadau cyn eu cyflwyno er mwyn sicrhau eglurder a chywirdeb y cynnig ac i nodi anghysondebau yn amcanion y swydd

arfaethedig.

2.20 Pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd bod y rhai sy’n derbyn grantiau yn darllen eu cytundeb grant i sicrhau nad yw arian yn cael ei gamwario na'i ddefnyddio y tu allan i delerau'r cytundeb. Atgoffodd y Panel y rhai sy’n derbyn grantiau hefyd o'u cyfrifoldeb i adrodd ar wariant y grant. Atgoffwyd ymgeiswyr mai dim ond ar y diben dynodedig fel yr amlinellir yn y cytundeb y gellir gwario arian a bod yn rhaid iddynt hysbysu Ofcom am amgylchiadau a allai effeithio ar wariant y dyfarniad neu geisio caniatâd ar gyfer unrhyw amrywiadau arfaethedig i ddiben neu gyfnod y grant.

2.21 Nododd y Panel eu bod yn mwynhau darllen disgrifiadau cryno o hanes yr orsaf a’i gweithgareddau cyfredol. Roedd y panel yn arbennig o falch o ddysgu am y gorsafoedd hynny a oedd yn gallu dangos eu gwaith rhagorol a'u budd cymdeithasol.

## Monitro grantiau

2.22 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd arno. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai y dyfernir grant iddo, am mae hwn yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwariant. Ar ddiwedd cyfnod gwario’r grant, mae'n rhaid i’r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy’n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu grant. Ar ben hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd trwy'r cyfnod gwario perthnasol. Nod yw adroddiadau interim ydy helpu i ddod o hyd i unrhyw broblemau posibl a fydd yn deillio o wario’r grant. Os na roddir adroddiad boddhaol, mae’n bosib y bydd y Panel yn gofyn i’r grant gael ei ad-dalu, a gall ystyried peidio â dyfarnu grant pellach i drwyddedai mewn rownd yn y dyfodol.

2.23 Os bydd y trwyddedai yn peidio â dal ei drwydded ddarlledu (e.e. drwy ei hildio neu ei dirymu) tra bod cytundeb grant yn ei le, bydd yn ofynnol i unrhyw arian grant sydd heb ei wario cael ei ad-dalu’n llawn.

2.24 Roedd y rhan fwyaf o’r adroddiadau grant a dderbyniwyd yn ystod 2025-26 yn foddhaol ond cododd rhai problemau yn ystod y cyfnod ynghylch camwariant a chamreoli arian grant. Yn yr achosion hyn, mae Ofcom wedi ceisio adennill arian oddi wrth y trwyddedeion. Mae Ofcom yn gwirio pob adroddiad yn ofalus ac yn gofyn am eglurhad gan dderbynyddion grantiau yn ystod y broses adolygu.

2.25 Ystyriodd y Panel nifer o geisiadau i ail-bwrpasu rhan o'r arian a dderbyniwyd, neu i ymestyn cyfnod grant gan ddilyn anawsterau wrth lenwi swyddi gwag a ariannwyd. Mae'r Panel yn ystyried pob cais o’r math hwn ar ei delerau ei hun, gan ystyried y rhesymau y tu ôl i'r dyfarniad cychwynnol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau o’r fath ai peidio.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

2.26 Mae'r sector radio cymunedol analog wedi aros yn sefydlog, ar ôl cwblhau'r rownd drwyddedu derfynol yn 2020. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 297 o orsafoedd radio cymunedol yn darlledu ar AM neu FM. Cafodd 11 trwydded wedi'u hildio rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Fodd bynnag, pan fyddwn yn clywed am ddeiliaid trwydded yn ystyried rhoi eu trwydded yn ôl, rydym yn eu hannog i weld a oes unrhyw grwpiau lleol eraill a fyddai'n ystyried cymryd y drwydded i sicrhau nad yw gwrandawyr yn yr ardal leol yn cael eu difreinio. Mae'r dull hwn wedi profi i fod yn llwyddiannus mewn rhai achosion.

2.27 Yn bresennol, rydym wedi cael 278 o geisiadau am drwyddedau Rhaglen Sain Ddigidol Gymunedol (C-DSP), sef trwyddedau radio cymunedol ar gyfer darlledu radio digidol ar amlblecsau DAB ar raddfa fach ("SSDAB"). Mae trwyddedwyr C-DSP yn gymwys i wneud cais am y Gronfa o'u dyddiad lansio. I gyd, rydym bellach wedi dyfarnu 219 o drwyddedau ac o'r rhain, mae 139 o orsafoedd C-DSP bellach yn darlledu, tra bod 80 arall wedi'u dyfarnu ac yn aros i'w lansio.  O'r 139 gwasanaeth hyn, mae cyfanswm o 57 gwasanaeth yn newydd i'r farchnad, tra bod yr 82 sy'n weddill yn darlledu'r cynnwys sydd ar gael ar drwyddedau radio cymunedol analog presennol. Cafodd 21 o geisiadau eu gwrthod neu wedi'u tynnu'n ôl, gyda 23 o drwyddedeion wedi ildio eu trwyddedau ers iddynt gael eu dyfarnu, gyda 15 ar hyn o bryd o dan neu yn aros am asesiad. Er bod Ofcom bellach wedi cwblhau'r broses o gyflwyno rowndiau trwyddedu amlblecs SSDAB, rydym yn disgwyl cynnydd parhaus yn niferoedd y gwasanaethau C-DSP oherwydd bod tua 50 o drwyddedau amlblecs SSDAB yn dal i aros i gael eu lansio.

2.28 Daeth Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 newydd i rym ar 1 Ebrill 2025. Roedd y Gorchymyn yn rhoi'r pŵer i Ofcom ymestyn pob trwydded analog radio cymunedol am bedwerydd tymor arall am gyfnod o 10 mlynedd. Diwygiwyd trwyddedau analog radio cymunedol a Rhaglen Sain Ddigidol Gymunedol hefyd i ddileu'r cyfyngiadau nawdd a hysbysebu ar yr awyr ym mhob un ond pum gwasanaeth analog radio cymunedol lle mae'r cap refeniw yn cael ei gynyddu o £15,000 i £30,000 y flwyddyn. Ar yr un pryd gwnaethom amrywio trwyddedau cymunedol analog i weithredu Ymrwymiadau Allweddol yn unol â'n Datganiad cyhoeddedig i roi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd gyflawni amcanion allweddol radio cymunedol, gan gynnwys cyflawni budd cymdeithasol a mynediad at y gwasanaeth i'r gymuned leol.

2.29 Ar 11 Chwefror 2026, cyhoeddom ymgynghoriad a oedd yn gofyn am farn gan randdeiliaid ynghylch ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer trwyddedu radio yn y tymor byr/canolig. Un o'r meysydd blaenoriaeth arfaethedig yw cwblhau mwy o drwyddedu radio cymunedol FM analog o ystyried y ceisiadau parhaus a dderbyniwn gan ddeiliaid trwyddedau ac argaeledd sbectrwm mewn rhai ardaloedd o'r DU. Rydym yn disgwyl i'r datganiad sy'n cadarnhau canlyniad yr ymgynghoriad hwn gael ei gyhoeddi yn haf 2026.

2.30 Ym mis Mawrth 2026 cyhoeddodd DCMS gynnydd ar gyfer cyllid radio cymunedol i £1 miliwn dros y tair blynedd ariannol nesaf fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cyfryngau Lleol. Mae hyn yn newyddion a chroesawir gan y bydd yr arian ychwanegol yn darparu mwy o gyfleoedd i orsafoedd radio cymunedol presennol fod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid yn y blynyddoedd i ddod. Er bod manylion y cynnydd i Gronfa Radio Cymunedol gael eu cwblhau gyda swyddogion DCMS, rydym yn disgwyl gweithredu newidiadau i'r gronfa yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.

# Aelodau'r panel

2.31 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodir gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.

Ar gyfer 2025-26 y rhain oedd:

- Mark Jones, Cadeirydd y Panel, sy'n gyn-weithiwr y BBC sydd â phrofiad helaeth o ohebu, cynhyrchu a rheoli radio;
- Clare McNally-Luke, Pennaeth Ymchwil a Mewnwelediad Sain yn y Grŵp Strategaeth ac Ymchwil yn Ofcom, sydd â phrofiad helaeth o strategaeth a pherfformiad radio masnachol y BBC;
- Alan Stewart, cyn Pennaeth y Comisiwn Teledu Annibynnol yn yr Alban a chyn-

weithiwr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth mewn cysylltiadau darlledu a materion cymunedol lleol.

2.32 Yn dilyn rownd o recriwtio a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Rheoli a Pholisi ym mis Rhagfyr 2025, penodwyd Hannah Bryant i Banel Cronfa Radio Cymunedol a dechreuodd ei rôl ym mis Ionawr 2026 fel sylwedydd tan 31 Mawrth 2026 cyn dechrau ei thymor tair blynedd tan 31 Mawrth 2029. Penodwyd Alan Stewart hefyd i rôl Cadeirydd Panel y Gronfa Radio Cymunedol ym mis Mawrth 2026 am dymor o dair blynedd.

2.33 Mae gan Hannah dros 25 mlynedd o brofiad yn arwain gwerthuso tendrau, cynigion a cheisiadau am grant ar draws llywodraeth ganolog, y GIG, awdurdodau lleol a'r sector elusennol. Mae bywgraffiadau holl Aelodau'r Panel i'w gweld ar wefan Ofcom yn Banel y Gronfa Radio Cymunedol.

2.34 Gwnaed penderfyniadau ar geisiadau grant a wnaed yn rownd 2025/26 gan Mark Jones ac Alan Stewart gan nad oedd Clare McNally-Luke ar gael. Roedd hyn yn unol â'r cylch gorchwyl ar gyfer y Panel Cronfa Radio Cymunedol sy'n nodi bod cworwm yn ddau.